**YMCHWILIAD CYNLLUNIO YNG NGHYMRU – DATGANIAD YSGRIFENEDIG**

**Rhagarweiniad**

- Cyflwyniadau: Emrys Parry (Comisiynydd Cymru), Mark Wilson (Arweinydd Achos ac Arweinydd Grŵp Cymru), Owain George (Swyddog Achos Dwyieithog)

Rhoddir y datganiad ysgrifenedig hwn yng nghyd-destun llythyr y Pwyllgor dyddiedig 29 Ebrill 2010, ac ymateb y Comisiwn dyddiedig 9 Mehefin 2010 (Atodiad A) sy'n ymdrin yn benodol â'r cwestiynau a ofynnwyd o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor. Bwriedir i'r datganiad ehangu ar safiad statudol yr IPC yn benodol mewn perthynas â gweithio yng Nghymru, rhoi diweddariad ynglŷn â nifer y prosiectau a dderbyniwyd neu sydd yn y cam cyn ymgeisio ac amlinellu'r gweithgareddau trefniadaethol a chyfathrebu y mae'r IPC wedi eu cyflawni i roi dilysrwydd i'r cyd-destun Cymreig penodol. Mae'n diweddu gyda diweddariad ynglŷn â'r safiad yn dilyn datganiad Gweinidogaethol 29 Mehefin 2010 a sut rydym yn gweithio yn ystod y cyfnod trawsnewid ac i'r dyfodol.

**Safle Statudol IPC yng Nghymru o dan Ddeddf 2008**

Mae darpariaethau arbennig yn Neddf Cynllunio 2008 sy'n berthnasol i Gymru yn unig. Datblygwyd trefniadau ar gyfer cyflawni busnes yng Nghymru gyda Llywodraeth y Cynulliad. Rydym hefyd wedi cynnal trafodaethau dechreuol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill yr ymgynghorir yn statudol â nhw.

Y cyd-destun yw'r system cynllunio seilwaith mawr a sefydlwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008 (y Ddeddf), fel mae'n ymwneud â thrin yr holl argymhellion ar gyfer Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd (NSIP) yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys y dyfroedd tiriogaethol sy'n gyfagos i Gymru (h.y. hyd at y ffin atfor o 12 milltir forol).

Mewn perthynas â pholisi, mae Deddf 2008 yn rhoi arwyddocâd arbennig i'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol. Wedi i'r Datganiad Polisi Cenedlaethol perthnasol gael ei ddynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, rhaid i'r IPC benderfynu ar geisiadau yn unol ag ef oni bai bod rhai ystyriaethau arbennig yn berthnasol, er enghraifft y byddai effaith niweidiol y datblygiad arfaethedig yn gorbwyso ei fanteision. Bydd Datganiadau o Bolisi Llywodraeth Cymru, lle bo hynny'n berthnasol, yn ystyriaethau pwysig i Gomisiynwyr IPC yn eu harchwiliad o geisiadau. O ystyried y nifer sylweddol o geisiadau a ddisgwylir ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt atraeth yng Nghymru, mae'r IPC yn cydnabod y bydd polisïau a strategaethau[1] presennol gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru 2010 a TAN 8, yn arbennig o berthnasol.

Ar gyfer pob cais sy'n debygol o effeithio ar dir yng Nghymru, rhaid i ymgeiswyr ymgynghori â Llywodraeth y Cynulliad, yr Awdurdodau Lleol Cymreig perthnasol a nifer o gyrff Cymreig eraill a ragnodwyd mewn rheoliadau. Bydd y sefydliadau hyn yn bartïon sydd â diddordeb a fydd yn gallu cymryd rhan yn yr archwiliad. Bydd mewnbwn gan y sefydliadau hyn, gan gynnwys eu barn ynglŷn â chydnawsedd argymhellion yr ymgeisydd gyda pholisi a chanllawiau presennol, yn dystiolaeth bwysig y bydd yr awdurdod archwilio yn ei hystyried.

Bydd yr IPC yn sicrhau bod darpar ymgeiswyr a phartïon eraill yn ymwybodol o'r dechrau o'r ffyrdd arbennig y mae'r system cynllunio seilwaith yn berthnasol yng Nghymru. Mae hyn yn berthnasol oherwydd bod nifer o ystyriaethau yn y ddeddfwriaeth yn ymwneud â Chymru sy'n bwysig eu gwybod wrth ddrafftio gorchymyn caniatâd datblygu.

Mae nodweddion allweddol Deddf Cynllunio 2008 mewn perthynas â Chymru yn cynnwys: y diffiniad o NSIPs yn rhan 3 y Ddeddf, lle nad yw rhai prosiectau

[1] Gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 3, 2010); Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8: Ynni Adnewyddadwy (2005); Strategaeth Gwastraff 2009 – 2050: Tuag at Ddyfodol Diwastraff; Chwyldro Carbon Isel: Datganiad Polisi Ynni Cymru (Mawrth 2010); Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2008

seilwaith yng Nghymru (fel prosiectau priffyrdd a phrosiectau rheilffyrdd) wedi eu diffinio fel NSIPs, ac felly ni ellir rhoi caniatâd iddynt gan yr IPC; ni ellir tybio bod caniatâd wedi ei roi fel rhan o'r gorchymyn caniatâd datblygu ar gyfer datblygiad cysylltiedig yng Nghymru; ni ellir tybio bod caniatadau fel caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd cofadeiladau rhestredig yn cael eu rhoi fel rhan o'r gorchymyn caniatâd datblygu ar gyfer NSIPs yng Nghymru.

Dangosir manylion pellach yn y pecyn gwybodaeth (Gweler Atodiad B).

**Crynodeb o Brosiectau yng Nghymru**

O'r 51 o brosiectau a restrir ar hyn o bryd o fewn Rhaglen o Brosiectau IPC: lleolir 13 o'r rhai hynny yng Nghymru; mae 7 yn ffermydd gwynt atraeth; mae 3 yn brosiectau ffermydd gwynt alltraeth a leolir oddi ar arfordir Cymru neu byddent yn weladwy o Gymru; mae 2 brosiect yn gysylltiadau llinellau trydan uwchben y ddaear; ac 1 yn brosiect cyfleuster ynni o wastraff.  (Gweler Atodiad C).

Yn arwyddocaol, y cais cyntaf i'w gyflwyno o flaen yr IPC mewn cyd-destun ffurfiol oedd cais am gysylltiad llinellau trydan ger Castell-nedd. Ond ni dderbyniwyd hwn i'w archwilio am y rhesymau a gyflwynwyd yn ein llythyr[2] a gyhoeddwyd.

Mewn perthynas â'r math o brosiectau sydd yn y cam cyn-ymgeisio ar hyn o bryd, mae'r rhaglen ar hyn o bryd yn cynnwys naw o ffermydd gwynt, un cysylltiad ar gyfer llinellau uwchben y ddaear, cyfleuster ynni o wastraff yn Merthyr a gorsaf bŵer niwclear yn y Wylfa, ar Ynys Môn. O ganlyniad i'r cynlluniau arfaethedig hyn, mae 22% o bŵer cynhyrchu potensial prosiectau IPC yng Nghymru.

[2] http://infrastructure.independent.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN020004/2.%20Post-Submission/Procedural%20Decisions/100831_EN020004_Section%2055%20Decision%20(English).pdf

## Gweithgareddau yng Nghymru

Mae'r rhestr ganlynol yn crynhoi gweithgareddau allweddol yng Nghymru hyd yma: (gweler Atodiad D am restr lawnach)

- IPC yng Nghymru: digwyddiad lansio (9 Mawrth 2010);
- Gweithdy gydag IPC a Llywodraeth y Cynulliad (10 Chwefror 2010);
- Cynhaliwyd digwyddiadau allgymorth ar gyfer cynlluniau NSIP yng Nghlocaenog a Merthyr Tudful[3] (yr ydym eisoes wedi derbyn adborth cadarnhaol ohonynt) a bwriedir cynnal dau ddigwyddiad pellach cyn y Nadolig (Aberystwyth ym mis Hydref a Sir Gaerfyrddin yn niwedd Tachwedd).
- Mynychwyd Cynadleddau Cymorth Cynllunio Cymru (29-30 Ebrill) a chynhadledd RTPI (8 Mehefin 2010); y ddwy yng Nghaerdydd;
- Mynychwyd cyfarfodydd gydag ChLlL (LGA) Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, DfT a Grŵp Strategaeth RenewableUK Cymru a Chynhadledd Flynyddol yng Nghaerdydd.

## Memorandwm o Ddealltwriaeth

Mae'r IPC wedi bod yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu Memorandwm o Ddealltwriaeth, sef dogfen sy'n cyflwyno rolau'r sefydliadau mewn perthynas â chynllunio seilwaith a sut mae'r system hon yn ymwneud â Chymru. Mae'r Memorandwm hefyd yn egluro'r berthynas waith a'r trefniadau rhwng y ddau gorff. Mae'r ddogfen hon bellach wedi ei chyhoeddi (30 Medi) a bydd yn gweithredu fel canllaw i gefnogi'r pwyntiau cyswllt rhwng IPC a Llywodraeth y Cynulliad ym mhroses caniatáu datblygu IPC. Bydd cyfarfod achlysurol gyda swyddogion IPC a Llywodraeth y Cynulliad yn goruchwylio'r gwaith o ryngweithio llyfn rhwng y ddau barti yn y broses hon.

---

[3] Nodwch fod cyfleuster allgymorth EfW Merthyr wedi ei gynnal yng Nghaerffili

Mae'r IPC yn cydnabod y prif wahaniaethau canlynol yn rôl Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â chynllunio seilwaith.

- Ei rôl ym meysydd datganoledig ffurfio polisi i Gymru;
- Y swyddogaethau rheoleiddiol uniongyrchol mae'n eu cyflawni;
- Ei rôl fel lluniwr penderfyniadau ar gyfer rhai apelau a chaniatadau eraill;
- Ei ddyletswyddau i oruchwylio gweithrediadau cyrff eraill, gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru; a
- Y cyd-destun sef bod gan Lywodraeth y Cynulliad ddyletswydd statudol i gefnogi a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Rydym hefyd yn awyddus i sefydlu arfer da yng Nghymru, yn arbennig drwy ein cysylltiadau gydag Awdurdodau Lleol. Mae Cyngor Sir Powys, er enghraifft, wedi rhoi cyngor ar sut i baratoi Datganiad o Ymgynghoriad Cymunedol. Tynnodd ein Cylchlythyr misol sylw at yr arfer da hwn[4].

**Trefnu ar gyfer Gwaith yng Nghymru**

Mae'r IPC wedi mabwysiadu'r egwyddor wrth gynnal ei fusnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal. O fewn y cyd-destun hwn, mae'r Comisiwn yn parchu gofynion Adran 5 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, sy'n nodi bod yn rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, baratoi cynllun iaith Gymraeg. O ganlyniad, mabwysiadodd yr IPC ei Gynllun Iaith Gymraeg ei hun ym mis Tachwedd 2009 mewn ymgynghoriad gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Cynllun yn nodi mesurau y bydd yr IPC yn eu cymryd i ddarparu gwasanaethau

[4] http://infrastructure.independent.gov.uk/wp-content/uploads/2010/05/Powys-SOCC-guide.pdf

i’r cyhoedd yng Nghymru syn gydnaws â’r egwyddor wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru y dylai’r iaith Gymraeg a’r Saesneg gael eu trin yn gyfartal.

Mae Deddf 2008[5] yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynwyr Cymru[6] gyfrannu at y broses o lunio penderfyniadau lle mae prosiectau yn ymwneud â thir yng Nghymru. Dewiswyd y Comisiynwyr drwy enwebu 8 o’r 40 o Gomisiynwyr gan Weinidog yr Amgylchedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Jane Davidson. Roedd yr enwebiadau yn rhoi ystyriaeth i’w dealltwriaeth o Gymru a’r cyd-destun Cymreig.

I osgoi unrhyw ddryswch ynglŷn â’r pwynt hwn, dylwn hefyd egluro mai cylch gorchwyl statudol Comisiynwyr Cymru yw cyfrannu arbenigedd a gwybodaeth arbenigol yn ymwneud â materion Cymreig i’r ystyriaeth a’r archwiliad o argymhellion NSIP yng Nghymru. Nid eu gwaith yw cynrychioli buddiannau Llywodraeth y Cynulliad yn uniongyrchol na buddiannau cyrff datganoledig eraill yng Nghymru fel pe baent yn weithwyr i Lywodraeth y Cynulliad. Ac, fel unrhyw Gomisiynydd arall, ni fydd Comisiynydd Cymru yn gallu rhoi sylwadau ar ragoriaethau ceisiadau NSIP unigol cyn y cyflwynir cais.

Rydym yn trefnu briffiad rheolaidd ac yn rhannu gwybodaeth rhwng y Comisiynwyr Cymru dynodedig. Bydd hyn yn sicrhau bod yr IPC a lle bo hynny’n briodol Llywodraeth y Cynulliad, yn gallu dosbarthu gwybodaeth am broses ymgeisio’r NSIP fel mae’n ymwneud â Chymru a sicrhau bod y Comisiynwyr yn cael eu diweddaru’n rheolaidd ynglŷn â’r cyd-destun Cymreig.

I gyd-fynd â’n hamcanion fel yr amlinellwyd hwy yn y Cynllun Iaith Gymraeg, mae’r Comisiwn hefyd wedi recriwtio Swyddogion Achos Cymraeg eu hiaith sy’n cynnig gallu i ymdrin â chyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg sy’n ymwneud â

---

[5] Deddf Cynllunio 2008, Rhan 6, Pennod 2, Adran 70
[6] Richard Davies, Eira Hughes, John Lloyd Jones, Bob Macey, Emrys Parry, Iwan Richards, Glyn Roberts, Bill Wadrup

gwaith achos sy'n effeithio ar gymunedau Cymraeg eu hiaith. Yn ychwanegol, darparwyd cyfleusterau cyfieithu a chyflwyno'n ddwyieithog mewn digwyddiadau allgymorth.

**Y Dyfodol**

Cyflwynodd datganiad Gweinidogaethol[7] 29 Mehefin y dyfodol ar gyfer yr IPC. Cadarnhaodd fod y Llywodraeth yn dymuno cael system cynllunio ar gyfer seilwaith mawr sy'n gyflym, yn hawdd ei rhagfynegi ac yn atebol, ond y dylai penderfyniadau ar geisiadau seilwaith mawr gael eu gwneud gan Weinidogion, gan ailgyflwyno atebolrwydd democrataidd yn unol â Chytundeb y Glymblaid. Wrth ddeileu'r IPC amlinellodd y Llywodraeth y bydd yn:

*"sefydlu Uned Cynllunio Seilwaith Mawr (MIPU) fel rhan o'r Arolygaeth Cynllunio (PINS), asiantaeth bresennol o'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a fydd yn cadw cryfderau'r prosesau wedi eu symleiddio a phrofiad yr Arolygaeth Cynllunio".*

Bydd angen deddfwriaeth sylfaenol i ddileu'r IPC. Disgwylir y bydd y Mesur Datganoli a Lleoli yn cael ei ddarlleniad cyntaf erbyn diwedd Tachwedd 2010 ac yn derbyn Caniatâd Brenhinol erbyn hydref 2011. Bwriedir i'r diwrnod breinio ar gyfer yr MIPU a'r PINS cyfun, newydd fod yn Ebrill 2012 er bydd y dyddiad hwn yn cael ei ddwyn ymlaen os bydd amgylchiadau yn caniatáu.

Y prif amcan yw sicrhau budd y cyhoedd a chreu system gynllunio ar gyfer seilwaith mawr a gefnogir gan bawb sy'n ymwneud â hi. I sicrhau hyn, rhaid i unrhyw system o lunio penderfyniadau fod yn deg, a rhaid gweld ei bod yn deg, yn agored ac yn gost effeithiol.

---

7 Datganiad Gweinidogaethol ar ddiwygio Cynllunio 29 Mehefin http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201011/cmhansrd/cm100629/wmstext/100629m0001.htm#10062944000016

Er bod yn rhaid i'r dull o lunio penderfyniadau gan y ddau gorff barhau yn ddi-duedd ac yn gynhwysol, ar y lefel weithredol, mae cydweithio rhwng yr IPC a Llywodraeth y Cynulliad yn bwysig. Dylai cysylltiadau gwaith wedi eu ffocysu rhwng y ddau gorff sicrhau y gellir bodloni amserlenni heb straen diangen ar y sefydliadau, a bod adnoddau a blaenoriaeth briodol yn cael eu rhoi i'r prosesau dan sylw.

**Sylwadau clo**

Mae'r IPC yn parhau wedi ymrwymo i'r dyfodol gydag agwedd ddi-duedd a chynhwysol at bob prosiect, gan barhau i fod yn agored ac yn dryloyw ym mhopeth a wna. Yng Nghymru, adlewyrchir ein dull cynhwysol yn ein hymrwymiad i'n cynllun iaith Gymraeg ac rydym yn ymwybodol o gynlluniau i Lywodraeth y Cynulliad ddatblygu hyn.

Mae llawer o argymhellion NSIP yn cael eu cyflwyno ac mae ceisiadau bellach yn cael eu derbyn gan yr IPC. Mae ymgeiswyr a chyrff sydd â diddordeb yn ymgysylltu'n effeithiol ac mae'r adborth yn gadarnhaol. Mae hyder yn y broses yn cynyddu o ganlyniad.

Mae pob parti yn dysgu bod hon yn ffordd newydd o gynllunio seilwaith cenedlaethol. Ein profiad ni yw bod prosiectau Cymreig yn ymestyn eu llinellau amser i ganolbwyntio ar y cam ymgynghori cyn ymgeisio cyn cyflwyno cais. Mae hyn yn aml oherwydd bod ymgeiswyr yn sylweddoli faint o waith sy'n angenrheidiol i esbonio materion gydag awdurdodau lleol a chymunedau cyn y cyflwynir eu ceisiadau.

Ni fydd yr heriau yn ein siglo wrth inni symud i drefn newydd i ddod yn Uned Cynllunio Seilwaith Mawr fel rhan o integreiddio gyda PINS. A thrwy'r newidiadau a thu hwnt, byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau wedi ffocysu ar Gymru, gan

barchu ei statws a'i hiaith unigryw a bod ar yr un donfedd ag unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol mewn materion datganoledig.

Disgwyliwn am gyhoeddi drafftiau diwygiedig y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar Ynni ac unrhyw ddatganiadau newydd. Byddwn yn cadw'r datblygiadau polisi perthnasol o dan arolwg yng Nghymru ac yn ceisio ymestyn arfer da mewn perthynas ag ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau lleol yn arbennig. Mae gennym ddiddordeb hefyd yn adroddiad y Pwyllgorau yn y dyfodol ar gynaliadwyedd a rhyngweithio effeithiol ynghylch polisi i'n goleuo wrth archwilio prosiectau yn y dyfodol.

Dr Pauleen Lane CBE
Dirprwy Gadeirydd
Comisiwn Cynllunio Seilwaith

**ANNEDD A: Llythyr Sir Mike Pitt at y Cynulliad**

**9 Mehefin 2010**

Annwyl Ms. Hawkins

**Tystiolaeth ar gyfer Pwyllgor Cynaladwyaeth y Cynulliad**

Dymunaf ddiolch i'r Pwyllgor Cynaladwyaeth am wahoddiad i osod tystiolaeth o ran ei ymchwil ar Gynllunio yng Nghymru.

Sefydlwyd y Comisiwn Cynllunio Seilwaith (yr IPC) ar 1af Hydref 2008, o dan ddeddf Cynllunio 2008, i arolygu ceisiau datblygiad ar gyfer cynlluniau seilwaith. Nodwedd bwysig o'r broses newydd yw gwahahaniaethu rhwng y broses gosod polisïau a'r broses o arholi ceisiau datblygiad. Y mae hi'n amlwg felly na fydd y Comisiwn, a fydd yn arholi'r ceisiau, yn gallu sylwebu ar bolisïau'r llywodraeth.

Am y rheswm hwn, bydd ein tystiolaeth i'r Pwyllgor yn seiliedig ar effeithiolrwydd y gyfundrefn cynllunio seilwaith a hyn mewn perthynas â sut y mae'r Pwyllgor yn trosglwyddo polisi Llywodraeth Cymru.

Y mae'r Comisiwn yn gosod manylion pob cais a ellir ei ddisgwyl ar y wefan. Hyd at y dyddiad hwn, y mae 34 o wahanol gynlluniau ar y gofrestr, ac o hynny y mae naw yng Nghymru a phedair wedi eu lleoli ar yr arfordir. Y mae swyddogaeth y Comisiwn yng Nghymru yn bwysig ac felly yn hanfodol o ran eich ymchwiliad. Hyd yn hyn, nid oes cais wedi ei derfynu o dan y broses newydd, ond y mae hi'n bwysig ystyried effeithiolrwydd y broses o ran y materion a adnabuwyd gan y Pwyllgor.

1. **Sut mae amcanion polisïau blaenorol Llywodraeth Cymru yn cael eu hadlewyrchu drwy bolisïau lleol a gwladol a phenderfyniadau cynllunio lleol? Ydy'r dull hwn yn llwyddiannus?**

Mae Deddf Cynllunio 2008 yn gosod pwysigrwydd ar bolisïau Cenedlaethol (NPSs). Pan fydd polisi wedi ei benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, bydd yn rhaid i'r Comisiwn benderfynu ar y cynlluniau datblygu ynghyd â gofynion y polisi hwnnw. Bydd datganiadau polisi Llywodraeth Cymraeg, lle bo hynny'n berthnasol, yn faterion pwysig i'w hystyried gan Gomisiynwyr y Comisiwn yn ystod y broses arolygu. Gan bod nifer o geisiadau ar gyfer ffermydd gwynt atraeth ac alltraeth hyd yn hyn ar y rhestr o brosiectau, bydd polisi TAN8 yn fater i'w ystyried. Er hyn, nid yw polisïau Llywodraeth Cymru yn mwynhau statws

arbennig o'u gymharu â'r Polisïau Cenedlaethol, ac felly pan fydd gwrthdaro bydd y polisïau cenedlaethol hyn yn derbyn statws uwch gan Gomisiynwyr.

Nid yw'r berthynas rhwng polisïau Llywodraeth Westminster a Llywodraethau sydd â phwerau datganoledig yn fater i'w drafod gan y Comisiwn. Er hyn, rydym yn ystyried y bydd eglurhad rhwng y berthynas hon yn ddefnyddiol o ran prosiectau unigol. Darparwyd sylwadau gan y Comisiwn i'r Pwyllgor ar Egni a Newid Hinsawdd o ran y gwahaniaethau rhwng gwahanol brosesau cynllunio seilwaith a ddylai gael eu cydnabod yn y mannau priodol o fewn y Polisi Cenedlaethol ar Egni. Dylai, hefyd, fod eglurhad sengl ar sut y mae'r broses a'r fframwaith bolisi yn wahanol rhwng Lloegr a'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

**2. Pa mor llwyddiannus y mae canllawiau a pholisïau cynllunio yn hybu cynllunwyr i gymodi gofynion cystadleuol e.e. egni adnewyddadwy yn erbyn y tirwedd, tyfiant economaidd yn erbyn newidiadau hinsoddol?**

Y mae'r Polisïau Cenedlaethol sydd wedi eu cyhoeddi yn darparu canllawiau ar gyfer amryw o faterion y bydd Comisiynwyr yr IPC yn eu hystyried wrth arholygu ceisiadau, ac yn ein barn ni yn effeithiol. Rydym wedi tynnu sylw adrannau at fannau lle y mae posibilrwydd o fanylu yn y Polisïau Cenedlaethol, ac rydym yn edrych ymlaen at weld y diwygiadau y bydd y Llywodraeth newydd yn eu gwneud.

Nid yw'n bosib nac yn ddymunol i Bolisïau Cenedlaethol, neu bolisïau eraill sydd yn ymwneud a materion cynllunio i ddarparu canllawiau ar gyfer delio â materion cystadleuol. O ran ceisiadau prosiectau seilwaith, bydd yn rhaid i'r awdurdod arholi ystyried yr holl dystiolaeth, ac felly penderfynu neu argymell y cydbwysedd rhwng y galw a manteision y cynlluniau yn erbyn unrhyw faterion anffafriol.

Mae swyddogaeth ymgynghoreion yn bwysig iawn o ran hyn. Bydd yn rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â'r Cynulliad ar bob cais yng Nghymru, tra bydd hefyd eisiau ymgynghori â'r Llywodraethau Lleol a nifer o gyrff yng Nghymru o dan alw'r ddeddf. Bydd gwybodaeth o'r cyrff hyn, ynghlwm â'u barn ar gynlluniau'r datblygwr a pholisïau perthnasol yn bwysig wrth arolygi'r cais. Rydym felly yn ystyried y bydd y system newydd yn effeithiol yn y modd yma.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth uchod yn ddefnyddiol ichi o ran eich ymchwiliad. Byddwn wrth gwrs yn hapus i ddarparu gwybodaeth ar lafar yn ôl yr angen.

**Sir Michael Pitt**
**Cadeirydd**

**ANNEDD B : Nodweddion allweddol o’r system gynllunio seilwaith yng Nghymru**


- Bwriad y Ddeddf Cynllunio 2008 yw i ddiogelu datagnoliad yng Nghymru
- Mae’r Comisiwn wedi mabwysiadu’r egwyddor, cyn belled ag y bo’n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, y bydd yn trin y Gymraeg a’r Saesneg ar sail eu bod yn gyfartal wrth gyflawni ei fusnes cyhoeddus yng Nghymru.
- Yn unol ag a15-30, mae’r mathau o NSIP yng Nghymru yn cynnwys:
    - Gorsafoedd cynhyrchu
    - Llinellau trydan uwchben
    - Cyfleusterau storio nwy tanddaearol, pan fyddant mewn haenau mandyllog naturiol
    - Leiniau pibellau, nad ydynt yn bibellau cludo nwy
    - Cyfleusterau harbwr;
- Yng Nghymru, mae’r diffiniad cyfreithiol ar gyfer ‘datblygiad cysylltiedig’ NSIP wedi ei gyfyngu i gyflawni neu adeiladu gwaith arwynebedd, dyfrdyllau a phibellau sy’n gysylltiedig â chyfleusterau neu storio nwy tanddaearol mewn haenau hydraidd naturiol. Parthed NSIPau yng Nghymru, ni all yr IPC (ac eithrio o dan rai amgylchiadau) roi caniatâd cynllunio ar gyfer agweddau o’r NSIP y gellid, yn Lloegr, eu trin fel datblygiad cysylltiedig. Felly ar gyfer rhai mathau o waith (nad ydynt yn rhan ganolog o’r NSIP), rhaid sicrhau caniatâd cynllunio ac unrhyw ganiatadau ac awdurdodiadau eraill gan y corff penderfynu arferol.
- Fel y corff penderfynu arferol ar gyfer rhai caniatadau yn rhestr a150 (rheoliadau MPP), bydd angen i ymgeiswyr gael cytundeb Llywodraeth y Cynulliad os dymunant i ganiatâd o’r fath gael ei gynnwys dan orchymyn caniatâd datblygu a wnaed gan yr IPC;
- Mae gan Lywodraeth y Cynulliad rôl o ran ardystio, yn unol ag a131 ac a132, nad yw tir a roddwyd yn gyfnewid am dir categori arbennig (e.e. tir comin) yn ddim llai manteisiol.

- Ar gyfer NSIPau arfaethedig yn nyfroedd tiriogaethol Cymru cyn Ebrill 2011, gall gorchymyn gan yr IPC yn rhoi caniatâd datblygu gynnwys darpariaethau sydd angen caniatâd CPA, ond nid trwydded FEPA. Mae hyn yn unol ag a148 a 149 y Ddeddf. Wedi Ebrill 2011, pan fydd trwydded forol yn cymryd lle trwyddedau FEPA a chaniatadau CPA, dan a149A y Ddeddf (ac fel y diwygiwyd gan yr MCAA), efallai na fydd gorchymyn caniatâd datblygu yn barnu bod angen trwydded forol yn nyfroedd tiriogaethol Cymru oherwydd bydd hyn yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y Cynulliad;
- Yn unol ag a33 y Ddeddf, fe ddiddymir yr angen am gydsyniadau a chaniatadau penodol wrth sicrhau gorchymyn caniatâd datblygu, ond yng Nghymru mae caniatâd dan a2 neu 3 y Ddeddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979, hysbysiad dan a35 yr un Ddeddf a chaniatadau dan a8 neu 74 y Ddeddf Adeiladau Rhestredig yn dal yn ofynnol ar ran y corff penderfynu arferol.
- Pan fydd Panel neu Gyngor yr IPC yn penderfynu ar gais sydd o leiaf yn rhannol yng Nghymru ar sail adroddiad gan Gomisiynydd unigol, rhaid i Gadeirydd yr IPC, wrth benodi Comisiynwyr, sicrhau os yw'n rhesymol ymarferol fod o leiaf un o aelodau'r Panel neu Gyngor hwnnw wedi ei enwebu gan Lywodraeth y Cynulliad (a70 ac atodlen 1 i'r Ddeddf, paragraff 10).
- Ei ddynodiad fel corff ymgynghori statudol yn unol ag aa42 a 56 y Ddeddf ac Atodlen 1 i'r Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni Rhagnodedig a Gweithdrefn) 2009 (rheoliadau ceisiadau). Yn unol â hynny, rhaid i ymgeiswyr ymgynghori â Llywodraeth y Cynulliad ar bob cais arfaethedig ac a gyflwynwyd (ac a dderbynnir) sy'n 'debygol o effeithio ar dir yng Nghymru'. Mae felly'n debygol y byddai ymgeiswyr yn ymgynghori â Llywodraeth y Cynulliad ar gynigion sy'n agos at ffiniau a dyfroedd tiriogaethol Cymru.
- Diffinnir Llywodraeth y Cynulliad hefyd fel 'corff ymgynghori' ar gyfer yr holl gynigion sy'n 'debygol o effeithio ar dir yng Nghymru' parthed ceisiadau

cwmpasu gan ymgeiswyr i'r IPC, dan reoliad 8 y Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad Effaith Amgylcheddol) 2009. Felly bydd yr IPC yn ymgynghori â Llywodraeth y Cynulliad ar geisiadau cwmpasu EIA yn ymwneud â chynigion NSIP ar ffiniau Cymru a dyfroedd tiriogaethol ac ar unrhyw gynigion niwclear.

- Yn unol ag a102 y Ddeddf, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ‘fuddgyfranogwr’, sy’n caniatáu iddi gymryd rhan yng ngham archwilio unrhyw gais a dderbynnir sy’n ‘debygol o effeithio ar dir yng Nghymru’.

## ANNEDD C: Prosiectau yng Nghymru




| | Lleoliad | Cynigiad | Allbwn Amcangyrfrif (MW) | Ymgeisydd | I'w Ddisgwyl |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Môr Iwerddon** (15km oddi ar arfordir Ynys Mon) | Fferm wynt alltraeth Môr Iwerddon | 4200 | Centrica Energy | Heb Gadarnhad |
| 2 | Wylfa, **Ynys Mon** | Gorsaf Bwer Niwclear | 5300 | Horizon | Cwarter 1 2012 |
| 3 | Clocaenog, **Sir Ddimbych** | Fferm Wynt | 64-96 | RWE NPower Renewables | Ionawr 2011 |
| 4 | Mynydd Mynyllod, **Sir Ddimbych/Gwynedd** | Fferm Wynt | 50-75 | Scottish Power Renewables | Yr Haf 2011 |
| 5 | Dyfnant Forest, **Powys** | Fferm Wynt | 80-120 | Scottish Power Renewables | Tachwedd 2010 |
| 6 | Nant-y-Moch, **Ceredigion** | Fferm Wynt | 140-176 | SSE Renewables | Chwefror 2011 |
| 7 | Mynydd y Gwynt, Y Foel yn agos i Llangurig, **Powys** | Fferm Wynt | 69 | Renewable Energy Holdings and Mynydd y Gwynt Limited | Ebrill 2011 |
| 8 | Llanllwni, **Sir Gaerfyrddin** | Fferm Wynt | 50 | RES UK and Ireland | Chwefror 2011 |
| 9 | Brechfa, **Sir Gaerfyrddin** | Fferm Wynt | 107.5 | RWE NPower Renewables | Cwarter 1 2011 |
| 10 | Banwen, **Castell Nedd** - Connecting Maesgwyn windfarm | Llinell Gyswllt Egni 132,000 folt o fferm wynt Maesgwyn | - | Western Power Distribution | Cam Derbyn |
| 11 | Brig y Cwm, **Merthyr Tydfil** | Gorsaf Egni o Wastraff | 77 | Covanta | Tachwedd 2010 |
| 12 | Dwyrain Abertawe, **De Cymru** | Llinell Gyswllt | - | National Grid | Tachwedd 2011 |
| 13 | Sianel Bryste (16km oddi ar arfordir Cymru) | Fferm wynt alltraeth Atlantic Array | 1500 | RWE NPower Renewables | Ebrill 2012 |

**ANNEDD D: AROLWG DROS GWEITHGAREDDAU Y COMISIWN YNG NGHYMRU ERS 1af O HYDREF 2009**

**2009 – Recriwtio Comisiynwyr Craidd**

- Yn cynnwys dau comisiynwr wedi eu magu yng Nghymru ac yn elwa o ddaealldwriaeth graenus o sefyllfaoedd ac amgylchiadau yng Nghymru. Mae dwy Comisiynwr arall wedi gweithio yn eang yng Nghymru.

**Gaeaf 2009 – Cyfarfodydd rhwng swyddogion y Comisiwn, y Cynulliad a'r Gweinidog Amgylchedd**

- Cyfarfodydd yng Nghaerdydd rhwng swyddogion y Comisiwn, Comisiynwr craidd a swyddogion y Cynulliad i drafod cystylltiadau gweithio, egluro materion y gyfraith a chanfod modd gweithio yn gytun.
- Cyfarfod rhwng Cadeirydd y Comisiwn, Comisiynwr Craidd ac un Cyfarwyddwr gyda Jane Davidson, Gweinidog yr Amgylchedd, a Mathew Quinn yn Llundain i gadarnhau sut y bydd y Comisiwn yn gweithio yng Nghymru.

**Hydref 2009 – Paratoi y Cynllun Iaith Gymraeg**

- Proses gwirfoddol i baratoi ac egluro dulliau gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg, a sut i baratoi ar gyfer gweithio gyda siaradwyr Cymraeg

**Hydref 2009 – Cyflwyno Gwybodaeth ar yr Iaith Gymraeg a'r System Gynllunio i brosiectau Seilwaith**

- Cyflwyno ffurflen wybodaeth a datblygu cynnwys Cymraeg ar y wefan

**2009-10 – Cyfarfodydd a gweithdau rhwng y Comisiwn a swyddogion y Cynulliad**

- Cyfarfodydd a gweithdau rhwng y Comisiwn a swyddogion y Cynulliad ym Mryste a Chaerdydd i ddatblygu syniadau cyfreithiol a gweithredol

**2009-2010 – Cyfarfodydd rhwng Rhanddeiliaid sy'n gweithredu yng Nghymru**

- Bwrdd Yr Iaith Gymraeg
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru)
- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Cymdeithas Llywodraethau Leol Cymru

**Gwaith Allanol gyda Datblygwyr ac Awdurdodau Lleol**

- Cystylltu a chydweithio gydag Awdurdodau Lleol yng Nghymru (yn cyflwyno y Comisiwn a deall pwrpas a maint y gwaith yng Nghymru)
- Cyfarfod a Gweithdu gydag Awdurdodau Lleol yn Aberystwyth (Mai 2010)

**Mawrth 2010 – Cyflwyniad Ffurfiol y Comisiwn yng Nghaerdydd**

- Achlysur i gyflwyno'r Comisiwn yng Nghymru, a fynychwyd gan Jane Davidson (Gweinidog yr Amgylchedd), a siaradwyr o nifer o'r Rhanddeiliaid Cymraeg, o'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol

**Mawrth 2010 – Llythyr at Aeolodau Seneddol**

- Llythyr a ddanfonwyd gan Gadeirydd y Comisiwn i bob Aelod Seneddol, yn cynnig trafodaeth wyneb-yn-wyneb ac eglurhad o'r broses newydd, ynghyd a swydd a chyfrifoldebau'r Comisiwn yng Nghymru

**2009-10 – Dewis Comisiynwyr**

- 30 o Gomisiynwyr wedi ei dewis i weithio 'pan bydd galw'
- O'r nifer hyn, mae tri yn siaradwyr Cymraeg (John Lloyd Jones, cyn Gadeirydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru; Eira Hughes a oedd yn Bennaeth ar Gyngor Cefn Gwlad Cymru cyn dilyn gyrfa yn y Llywodraeth Ganolig; Richard Davies, yn gynt o WAG a oedd, ymysg swyddi eraill yn swyddog blaenorol o ran ddelystwyddau y Cynulliad ar gyfer yr Amgylchedd,

Cynaladwyaeth a Chartrefi). Mae nifer arall yn elwa o brofiad yng Nghymru

**Awst 2010 – Gweinidog Cymru yn Enwebu 8 Comisiynydd Cymraeg**

- Jane Davidson (Gweinidog yr Amgylchedd) yn ddiweddar yn darparu enwau y Comisiynwyr a enwebwyd yn ol anghenion statudol
- Wrth gymryd penderfyniad ar unrhyw brosiect seilwaith yn Nghymru mae’r Ddefdd Cynllunio 2008 yn angen bod o leiaf un Comisiynwr Cymraeg yn rhan o’r broses gwneud penderfyniad, er mwyn cadarnhau bod materion o bwys yng Nghymru yn cael eu hystryried yn gyflawn
- Enwau y Comisiynwyr ac enwebwyd:

  Richard Davies
  Eira Hughes
  John Lloyd Jones
  Bob Macey
  Emrys Parry
  Iwan Richards
  Glyn Roberts
  Bill Wadrup

- Mae’r rhestr yma yn cynnwys pedwar Comisiynwr sydd yn siarad Cymraeg graenus, Comisiynwr Craidd sydd yn gallu deall a siarad Cymraeg sylfaenol ac yn y broses o ddatblygu ei sgiliau, a tair Comisiynwr arall. Mae’r grwp yma yn darparu dealldwriaeth dwys o materion Cymaraeg sydd o bwys i Gymru.

**Mai / Mehefin 2010 – Recriwtio swyddogion cais (Siaradwyr Cymraeg)**

- Dau swyddog cais sydd yn siarad Cymraeg wedi ei recriwtio gan y Comisiwn. Mae’r swyddogion yn cynnig y gallu i ddelio a materion a chyfarthrebiad trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae genddynt brofiad o weitho mewn Awdurdod Lleol ac mewn Awdurdod Parc Cenedleuthol.

- Mae gan nifer o swyddogion arall dealldwriaeth dwys o faterion yng Nghymru, sydd yn cynnwys profiad o weithio i'r Cynulliad ac awdurdodau amgylcheddol eraill.
- Bydd cyfleuon i'w gymryd i gryfhau y nifer o siaradwyr Cymraeg wrth i'r Comisiwn dyfu mewn maint. Bydd hyn wrth gwrs yn cael eu hystyried pan yn trafod ein cyfuniad a'r Arolygiaeth Gynllunio.

**Gwaith Allanol ar Brosiectau Seilwaith sydd yn y broses 'Cyn gwneud Cais'**

- Achlysuron gwaith allanol mewn ardaloedd a ellir eu effeithio gan broseict Seilwaith, yn cynnwys
    - Achlysur Clocaenog (Gogledd Cymru)
    - Achlysur Merthyr Tydfil
    - Achlysur Aberystwyth (Hydref 2010)
    - Achlysur Sir Gaerfyrddin (Tachwedd 2010)

**Medi 2010 – Cofnod o Ddaealldwriaeth rhwng y Comisiwn a'r Cynulliad**

- Mae'r ddogfen yn egluro perthynas y Comisiwn a'r Cynulliad, ac yn egluro dulliau cyfarthrebu a chyd-weithio ar materion o bwys yn cynnwys prosiectau Seilwaith yng Nghymru.